O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 3 (Cy. 3)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Man i'r De o Johnston, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed *3 Ionawr 2013*

Yn dod i rym *14 Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Hwlffordd – Aberdaugleddau (yr A4076) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Ionawr 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Man i'r De o Johnston, Sir Benfro) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 14 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A4076 i'r de o Johnston yn Sir Benfro sy'n ymestyn o bwynt 110 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r A477 (i Neyland) hyd at bwynt 122m i'r gogledd o ganolbwynt